Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC34: Asesiad o ganlyniadau llifogydd strategol (cam 2)

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Gorffennaf 2025**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

Rhoddir trwydded ddirymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partïon; a
Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 2 ar gyfer Conwy - Prif Adroddiad

## Adroddiad Terfynol

Gorffennaf 2025

Wedi'i lunio ar gyfer:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

www.jbaconsulting.com

JBA
consulting

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Statws y Ddogfen

| | |
|---|---|
| Dyddiad cyflwyno | 7 Gorffennaf 2025 |
| Cyflwynwyd i | Richard Clarke |
| Cyfeirnod BIM | NQF-JBA-XX-XX-RP-Z-0001 |
| Diwygiad | P03 |
| Lluniwyd gan | Laura Thompson BSc<br>Dadansoddwr |
| Adolygwyd gan | Mike Williamson BSc MSc CGeog FRGS EADA<br>Prif Ddadansoddwr |
| Awdurdodwyd gan | Krista Keating BSc MSc CEnv CSci MCIWEM C.WEM<br>Cyfarwyddwr Cyswllt |

# Ôl Troed Carbon

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar ffurf sy'n ddelfrydol ei ddarllen yn ddigidol fel pdf. Mae defnyddio papur yn creu allyriadau carbon sylweddol ac mae echdynnu'r defnyddiau crai ar gyfer papur, ei gynhyrchu a'i ddosbarthu'n cael amryw effeithiau eraill ar yr amgylchedd. Daw allyriadau o argraffu hefyd, a sgil-effeithiau cynhyrchu peiriannau argraffu ac inc a defnyddio ynni i redeg y peiriannau. Meddyliwch am yr amgylchedd cyn argraffu.

# Cyswllt

| | |
|---|---|
| Rheolwr Prosiect JBA | Mike Williamson |
| Cyfeiriad | Phoenix House, Lakeside Drive, Centre Park, Warrington, WA1 1RX |
| Cod Prosiect JBA | 2024s1111 |

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio gwaith a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy gyfarwyddyd ar 22 Gorffennaf 2024. Cynrychiolydd y cleient ar gyfer y contract oedd Richard Clarke o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Laura Thompson o JBA Consulting a gyflawnodd y gwaith.

## Diben ac Ymwadiad

Mae Jeremy Benn Associates Limited ("JBA") wedi llunio'r Adroddiad hwn at ddibenion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r asiantiaid a benodwyd ganddo'n unig, yn unol â'r Cytundeb y cyflawnwyd ein gwasanaethau oddi tano.

Nid yw JBA yn atebol o gwbl am y modd y defnyddir yr Adroddiad hwn, ac eithrio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y dibenion hynny y'i comisiynwyd ac y'i lluniwyd ar eu cyfer.

Ni roddir unrhyw warant arall, boed wedi'i ddatgan neu'n oblygedig, ynghylch y cyngor proffesiynol yn yr Adroddiad hwn nac unrhyw wasanaethau eraill y mae JBA wedi'u darparu. Ni all unrhyw gorff arall ddibynnu ar yr Adroddiad hwn heb fod JBA yn cytuno i hynny'n ddiamwys ac yn ysgrifenedig o flaen llaw.

Mae'r casgliadau a'r argymhellion yn yr Adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan eraill a thybiwyd fod yr holl wybodaeth berthnasol a ddarparwyd ar gais gan eraill yn gywir. Nid yw JBA wedi gwirio'r wybodaeth a gafwyd yn annibynnol, oni ddywedir fel arall yn yr Adroddiad.

Mae'r Adroddiad yn manylu ynghylch y fethodoleg a ddefnyddiwyd a ffynonellau'r wybodaeth a ddefnyddiodd JBA werth ddarparu ei wasanaethau. Cyflawnwyd y gwaith a ddisgrifir yn yr Adroddiad hwn rhwng 22 Gorffennaf 2024 a 7 Gorffennaf 2025 ac mae'n seiliedig ar yr amgylchiadau ar y pryd a'r wybodaeth oedd ar gael yn ystod y cyfnod dan sylw. Felly, mae cwmpas yr Adroddiad hwn a'r gwasanaethau wedi'u cyfyngu'n ffeithiol i'r amgylchiadau hynny.

Mae JBA yn ymwadu rhag unrhyw addewid neu rwymedigaeth i hysbysu unrhyw unigolyn o unrhyw newid mewn unrhyw fater sy'n effeithio ar yr Adroddiad, a allai ddod i sylw JBA ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Adroddiad.

Ceir rhai datganiadau yn yr Adroddiad nad ydynt yn ffeithiau hanesyddol ond yn hytrach yn amcangyfrifon, rhagestyniadau neu ddatganiadau eraill sy'n darogan y dyfodol, ac er bod y rheiny'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol ar adeg llunio'r Adroddiad, mae datganiadau fel hyn yn eu hanfod yn destun risgiau ac ansicrwydd a fedrai beri i'r gwir ganlyniadau fod yn

sylweddol wahanol i’r rhai hynny a ragwelir. Yn benodol, nid yw JBA yn rhoi gwarant na sicrwydd ynghylch unrhyw amcangyfrifon neu ragestyniadau yn yr Adroddiad hwn.

## Hawlfraint

© Jeremy Benn Associates Limited 2025

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **1** |
| 1.1 | Ardal yr astudiaeth | 1 |
| 1.2 | Braslun o’r prosiect | 1 |
| 1.3 | Gwahanol Gamau’r Asesiad Strategol | 2 |
| 1.4 | Nodau’r Asesiad Strategol Cam 2 | 3 |
| **2** | **Polisïau a chanllawiau lleol** | **4** |
| 2.1 | Nodyn Cyngor Technegol 15 | 4 |
| 2.2 | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - Atodlen 3 | 6 |
| 2.3 | Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd | 7 |
| **3** | **Perygl llifogydd yng Nghonwy** | **9** |
| 3.1 | Llifogydd yn y gorffennol | 9 |
| 3.2 | Llifogydd o afonydd | 9 |
| 3.3 | Llifogydd o’r môr | 12 |
| 3.4 | Llifogydd dŵr wyneb | 13 |
| 3.5 | Llifogydd dŵr daear | 14 |
| 3.6 | Llifogydd o gronfeydd dŵr | 16 |
| 3.7 | Llifogydd o garthffosydd | 17 |
| 3.8 | Risg weddilliol | 18 |
| **4** | **Arfarnu safleoedd yng Ngham 2** | **19** |
| 4.1 | Arfarnu safleoedd | 19 |
| **5** | **Crynodeb** | **20** |

## Rhestr Ffigurau

Ffigur 1-1 ardal astudiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 1
Ffigur 1-2 Braslun o'r drefn Asesu Strategol 2
Ffigur 2-1 Ymdrin â gofynion TAN 15 5
Ffigur 2-2 Y pedwar o gonglfeini dylunio systemau draenio cynaliadwy (CIRIA 2015) 7
Ffigur 3-1 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Llifogydd Hanesyddol 9
Ffigur 3-2 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Afonydd 10
Ffigur 3-3 Ardaloedd Basn Afon 11
Ffigur 3-4 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - y Môr 12
Ffigur 3-5 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach 13
Ffigur 3-6 Perygl llifogydd o ddŵr daear 16
Ffigur 3-7 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Perygl Llifogydd o Gronfeydd Dŵr 17

## Rhestr o Dablau

Tabl 2-1 Diffinio Parthau Llifogydd y Map Cynllunio ar gyfer Cynllunio yn TAN 15 6
Tabl 3-1 Lwfans lefelau uchaf llif afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru 11
Tabl 3-2 Lwfans lefelau uchaf llif afon ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy 11
Tabl 3-3 Amcangyfrif o'r cynnydd cymedrig yn lefel y môr yn ardal Awdurdod Lleol Conwy 12
Tabl 3-4 Dwysedd brig y glaw (ar gyfer dalgylchoedd bach yn unig) 14
Tabl 3-5 Categorïau map perygl llifogydd dŵr daear JBA 15

## Talfyriadau

| | |
|---|---|
| CBSC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| CIRIA | Cwmni ymchwil a hyfforddiant yn y diwydiant adeiladu |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| TAN 15 | Nodyn Cyngor Technegol 15 |
| UKCP18 | Rhagestyniadau Hinsawdd y Deyrnas Unedig 2018 |

# Crynodeb Gweithredol

## Rhagarweiniad a'r Cyd-destun

Lluniwyd y ddogfen hon ar gyfer yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 2 er mwyn darparu rhywfaint o'r sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Lleol. Mae'n dilyn yr Asesiad Strategol Cam 1 ar gyfer Conwy a luniwyd ym mis Mawrth 2023. Dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'r Asesiad Strategol Cam 1.

Diben pennaf yr Asesiad Strategol Cam 2 yw galluogi dealltwriaeth briodol o wir lefel y risg sy'n effeithio ar y datblygiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad o'r Cynllun Lleol. Mae'r asesiad yn ystyried llifogydd o bob math yn ogystal ag elfennau eraill sy'n effeithio ar berygl llifogydd, gan gynnwys risgiau gweddilliol, er enghraifft. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr Asesiad Strategol Cam 2 yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) i gynnal y Prawf Cyfiawnhad a Derbynioldeb Canlyniadau, yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15) a Pholisi Cynllunio Cymru (PCC).

## Amcanion yr Asesiad Strategol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n darparu canllawiau ynglŷn â'r dull haenog o gynnal Asesiadau Strategol. Nod yr Asesiad Cam 2 yw ymhelaethu ar y risgiau a nodwyd yng Ngham 1 i greu gwell dealltwriaeth o beryglon llifogydd ar y safleoedd a ddyranwyd yng nghyswllt afonydd, y llanw, dŵr wyneb, dŵr daear a chronfeydd dŵr. Ar sail hynny, gall y Cyngor a datblygwyr wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chynnal datblygiadau'n effeithiol ac effeithlon. Mae'r Asesiad Cam 2 hefyd yn nodi'r dyraniadau hynny lle dylid dadansoddi'r risgiau'n fanylach drwy gynnal Asesiadau Canlyniadau Llifogydd penodol i'r safleoedd dan sylw.

## Crynodeb o'r Asesiad Strategol Cam 2

Darparodd CBSC 12 o ddyraniadau i'w hasesu'n fanylach. Sgriniwyd y rheiny yn ôl setiau data ynghylch peryglon llifogydd er mwyn asesu eu hyfywedd posib a llunio argymhellion ynglŷn â pheryglon llifogydd.


Lluniwyd adroddiadau asesu ar gyfer yr holl safleoedd a ddyranwyd ar sail asesiadau o lifogydd o amryw ffynonellau. Mae'r adroddiadau hynny'n manylu ynghylch y peryglon llifogydd ar bob safle a ddyranwyd, gan ystyried y buddion posib a'r risgiau gweddilliol yn sgil amddiffynfeydd rhag llifogydd. Defnyddiwyd hefyd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach i gael syniad o'r perygl o lifogydd o gyrsiau dŵr bach mewn mannau na fodelwyd yn fanwl ar eu cyfer.

Mae pob adroddiad yn nodi'r gofynion ar gyfer y dyraniad dan TAN 15 a PCC, yn ogystal â'r canllawiau ar gyfer Asesu Canlyniadau Llifogydd pob safle'n benodol.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Ardal yr astudiaeth

Ardal yr astudiaeth (Ffigur 1-1) yw ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yng Ngogledd Cymru, sydd ag arwynebedd o tua 1,149 cilometr sgwâr. Ceir nifer o gyrsiau dŵr yn y sir sy'n brif afonydd, gan gynnwys Afon Conwy, Afon Elwy, Afon Aled, Merddwr ac Afon Ceirw. Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ymestyn dros ardal o tua 427 cilometr sgwâr yng ngorllewin yr ardal weinyddol. Gan fod Parc Cenedlaethol Eryri yn Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhinwedd ei hun, mae ardal yr astudiaeth ar gyfer yr Asesiad Strategol Cam 2 hwn yn canolbwyntio ar yr ardal weinyddol ac eithrio'r Parc Cenedlaethol.




Ffigur 1-1 ardal astudiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## 1.2 Braslun o'r prosiect

CBSC sydd wedi comisiynu'r Asesiad Strategol Cam 2 hwn. Mae'r Asesiad yn darparu sail tystiolaeth gadarn ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd y Cyngor a bydd yn sail hefyd ar gyfer datblygu polisïau a dyraniadau tir dan y Cynllun newydd. Cynhaliwyd yr Asesiad Strategol yn unol â chanllawiau datblygu Llywodraeth Cymru, sef Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol (TAN 15)


(Mawrth 2025) yn ogystal â llythyrau perthnasol gan Lywodraeth Cymru i Brif Swyddogion Cynllunio a'r ystyriaeth a roddir i Newid Hinsawdd yn Asesiad Canlyniadau Llifogydd Llywodraeth Cymru.

Mae'r Asesiad Strategol Cam 2 yn datblygu'r gwaith a wnaed yn Asesiad Strategol Cam 1 (2023) ac yn asesu'r perygl o lifogydd ar safleoedd a dyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

## 1.3 Gwahanol Gamau'r Asesiad Strategol

Er mwyn asesu'r perygl o lifogydd posib yn drylwyr, dylai'r Asesiad Strategol gasglu'r holl wybodaeth sydd ar gael o bob ffynhonnell am beryglon llifogydd yn ardal yr astudiaeth, dadansoddi'r wybodaeth honno a'i chyflwyno.

Fel arfer, cynhelir Asesiadau Strategol mewn tri cham, a phob un yn fanylach na'r un blaenorol. Ceir crynodeb yn Ffigur 1-2. isod o'r tri cham Asesu Strategol.




Ffigur 1-2 Braslun o'r drefn Asesu Strategol

## 1.4 Nodau'r Asesiad Strategol Cam 2

Amcanion yr Asesiad Strategol Cam 2 hwn yw:

- Asesu'r perygl o lifogydd ar safleoedd a dyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar sail y data diweddaraf sydd ar gael ynglŷn â pheryglon llifogydd a chodiadau newid hinsawdd
- Darparu gwybodaeth a mapiau sy'n dangos y peryglon o lifogydd o bob ffynhonnell ar bob safle a ddyrannwyd
- Cyflwyno argymhellion ynglŷn â diogelu safleoedd rhag llifogydd yn ystod oes y datblygiad, yn unol â'r Prawf Cyfiawnhad a'r Meini Prawf Derbynioldeb fel y'u pennir yn TAN 15
- Ystyried, fel y bo'n ymarferol bosib, y polisïau a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf ym Mholisi Cynllunio Cymru, TAN 15 a chanllawiau'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ynghylch systemau draenio cynaliadwy.

# 2 Polisïau a chanllawiau lleol

## 2.1 Nodyn Cyngor Technegol 15

PCC sy'n pennu polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio a defnyddio tir. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol, Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru a llythyrau'n egluro'r polisi, sydd ynghyd â PCC yn creu fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol i Gymru. Nod y polisïau hyn yw bod yr holl ddatblygiadau yng Nghymru'n gynaliadwy ac yn hybu lles Cymru'n gymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, fel y pennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).


TAN 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol sy'n pennu'r meini prawf ar gyfer asesu canlyniadau datblygiadau mewn ardaloedd mewn perygl o lifogydd.

Mae TAN 15 yn datgan hefyd y dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau y lleolir datblygiadau'n ddigon pell o barthau llifogydd gan ystyried llifogydd dŵr wyneb eithafol a llifogydd o gyrsiau dŵr bach.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru TAN 15 yn 2004. Canllaw technegol ydyw ynglŷn â chynllunio ar gyfer datblygu a pherygl llifogydd, drwy ddisgrifio peryglon yn ddilyniannol yn seiliedig ar y Map Cyngor Datblygu. Cyhoeddwyd diwygiad yn TAN 15, a ategir gan y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, ym mis Medi 2021 a fyddai wedi dod i rym ym mis Rhagfyr 2021. Ar 24 Tachwedd 2021, fodd bynnag, penderfynodd Llywodraeth Cymru atal gweithrediad TAN 15 fel y'i diwygiwyd. Lluniwyd yr Asesiad Strategol hwn yn unol â TAN 15 fel y'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, ynghyd â'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

Mae TAN 15 yn adlewyrchu egwyddorion craidd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru drwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol. Mae TAN 15 yn cynnwys canllawiau technegol ynglŷn â chynllunio datblygu a pherygl llifogydd ac yn rhoi fframwaith ar gyfer asesu peryglon llifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, a'r risg o erydu arfordirol.

Y gofyniad cyntaf yw canfod y parthau llifogydd sy'n berthnasol i'r datblygiad arfaethedig a nodi eu categori yn ôl mor ddiamddiffyn ydynt, drwy asesu'r amgylchiadau presennol ac yn y dyfodol. Cynigir trefn enghreifftiol ar gyfer ymdrin ag amryw elfennau TAN 15 yn Ffigur 2-1.




Ffigur 2-1 Ymdrin â gofynion TAN 15

### 2.1.1 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio

Gyda'i gilydd, mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio a map Asesiad Risg Llifogydd Cymru yn creu Map Llifogydd Cymru. Y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yw'r man cychwyn wrth ystyried peryglon llifogydd yn y drefn gynllunio. Rhoddir sylw i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn asesiadau arfarnu'r safleoedd a ddyrannwyd yn Atodiad A er mwyn cyfeirio datblygiadau newydd arfaethedig at yr ardaloedd â'r perygl lleiaf o lifogydd.

Mae Tabl 2-1 yn crynhoi'r diffiniad o barthau llifogydd yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Seiliwyd graddfeydd llifogydd yn y Map ar sail amcangyfrifon canolig o newid hinsawdd, gan dybio mai 100 mlynedd fydd oes y datblygiad.

"*Y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yw'r man cychwyn ar gyfer ystyried perygl llifogydd yn y system gynllunio. Mae'r map yn defnyddio parthau llifogydd er mwyn dangos i ba raddau y mae tir mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr, dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn amlinellu'r camau gweithredu y dylid eu cymryd wrth ystyried datblygu yn y gwahanol barthau llifogydd.*" (paragraff 4.2 TAN 15).

Rhoddir sylw i'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn asesiadau arfarnu'r safleoedd a ddyrannwyd yn Atodiad A er mwyn cyfeirio datblygiadau newydd arfaethedig at yr ardaloedd â'r perygl lleiaf o lifogydd.

Tabl 2-1 Diffinio Parthau Llifogydd y Map Cynllunio ar gyfer Cynllunio yn TAN 15

| Parth | Llifogydd o Afonydd | Llifogydd o'r Môr | Llifogydd o Ddŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach |
|---|---|---|---|
| 1 | Tebygolrwydd llai nag 1 mewn 1,000 (0.1%) (yn ogystal â newid hinsawdd) o lifogydd mewn blwyddyn. | | |
| 2 | Tebygolrwydd llai nag 1 mewn 100 (1%) ond mwy nag 1 mewn 1,000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn, gan gynnwys newid hinsawdd. | Tebygolrwydd llai na 1 mewn 200 (0.5%) ond mwy nag 1 mewn 1,000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn, gan gynnwys newid hinsawdd. | Tebygolrwydd llai nag 1 mewn 100 (1%) ond mwy nag 1 mewn 1,000 (0.1%) o lifogydd mewn blwyddyn, gan gynnwys newid hinsawdd. |
| 3 | Tebygolrwydd mwy nag 1 mewn 100 (1%) o lifogydd mewn blwyddyn, gan gynnwys newid hinsawdd. | Tebygolrwydd mwy nag 1 mewn 200 (0.5%) o lifogydd mewn blwyddyn, gan gynnwys newid hinsawdd. | Tebygolrwydd mwy nag 1 mewn 100 (1%) o lifogydd mewn blwyddyn, gan gynnwys newid hinsawdd. |
| Parthau a Amddiffynnir TAN 15 | Ardaloedd lle mae isadeiledd rheoli perygl llifogydd yn cynnig safon ofynnol o amddiffyniad rhag llifogydd o afonydd o 1:100 (yn ogystal â newid hinsawdd a bwrdd rhydd). | Ardaloedd lle mae isadeiledd rheoli perygl llifogydd yn cynnig safon ofynnol o amddiffyniad rhag llifogydd o'r môr o 1:200 (yn ogystal â newid hinsawdd a bwrdd rhydd). | Ddim yn gymwys. |

### 2.1.2 Asesiad Perygl Llifogydd Cymru

Mae map yr Asesiad hwn yn arddangos peryglon presennol ac nid yw'n rhoi cyfrif am effeithiau newid hinsawdd fel y mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae Map Asesiad Perygl Llifogydd Cymru'n rhoi darlun manwl o natur y risgiau a pheryglon llifogydd a'u maint. Dylid cyfeirio at y map wrth gyrchu gwybodaeth am lefel gyfredol y perygl o lifogydd mewn eiddo presennol.

Rhoddir sylw i'r map yn yr asesiadau arfarnu o'r safleoedd a ddyrannwyd yn Atodiad A.


## 2.2 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 - Atodlen 3

Nod Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yw gwella trefniadau rheoli perygl llifogydd a'r modd y rheolir adnoddau dŵr, drwy bennu swyddogaethau a chyfrifoldebau'n fwy pendant ac annog dull sy'n seiliedig ar risgiau.

Daeth Atodlen 3 i'r Ddeddf i rym yng Nghymru ym mis Ionawr 2019 ac yn sgil hynny, daeth yn ofynnol i bob datblygiad newydd gynnwys y pedwar o gonglfeini dylunio systemau

draenio cynaliadwy, fel y gwelir yn Ffigur 2-2. Nod systemau draenio cynaliadwy yw efelychu'r broses naturiol o ddŵr wyneb yn draenio ar dir heb ei ddatblygu, drwy hwyluso llif y dŵr ar hyd llwybrau naturiol a lleihau cyfraddau dŵr ffo a chyfaint y dŵr yn ystod stormydd, gan hefyd gynnig buddion o safbwynt triniaeth dŵr.

O dan Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, dynodwyd pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae'r corff hwnnw'n gyfrifol am gymeradwyo systemau draenio arfaethedig mewn datblygiadau newydd ac ail-ddatblygiadau. Mae'n rhaid eu cymeradwyo cyn i'r datblygwr ddechrau adeiladu ac mae'r Corff Cymeradwyo hefyd yn gyfrifol am fabwysiadu systemau draenio cynaliadwy ar gyfer mwy nag un eiddo a'u cynnal a chadw.




Ffigur 2-2 Y pedwar o gonglfeini dylunio systemau draenio cynaliadwy (CIRIA 2015)

### 2.3 Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ddatblygu strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn yr ardal, ei chynnal, ei gweithredu a'i monitro. Bydd y strategaeth

lleol yn seiliedig ar wybodaeth fel yr asesiadau risg cenedlaethol a bydd pob Awdurdod Lleol a dalgylch yn arfer dull cyson sy'n seiliedig ar risg. Ni fydd y strategaeth leol yn ddarostyngedig i'r Strategaeth Genedlaethol, ond yn hytrach yn cynnwys amcanion penodol i reoli perygl llifogydd yn lleol sy'n gyson â blaenoriaethau cymunedau lleol. Mabwysiadwyd Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd CBSC[1] ym mis Chwefror 2013. Drwy gyflawni amcanion y strategaeth, bwriedir cyflawni'r canlyniadau canlynol:

1. Hybu gwell dealltwriaeth o beryglon llifogydd ac arfordirol lleol
2. Codi ymwybyddiaeth unigolion a chymunedau a'u gwneud yn fwy parod ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol ac effaith newid hinsawdd ar berygl llifogydd
3. Cydweithio ag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd, budd-ddeiliaid a'r cyhoedd i leihau peryglon llifogydd ac arfordirol, a rhannu data ac adnoddau er budd mwyaf i bawb
4. Lleihau'r effaith a'r goblygiadau o lifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd
5. Sicrhau fod penderfyniadau cynllunio'n gwbl ystyriol o faterion llifogydd a'r effaith y gallai penderfyniadau cynllunio yn y dyfodol ei chael ar reoli perygl llifogydd a datblygiadau hirdymor
6. Gwella a/neu gynnal capasiti systemau draenio cyfredol trwy dargedu gwaith cynnal a chadw
7. Mabwysiadu dull cynaliadwy o reoli peryglon llifogydd, gan gydbwyso buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol
8. Arfer mwy o ddulliau sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol
9. Sicrhau datblygiad y sgiliau sy'n ofynnol i weithredu dulliau dyfeisgar ac effeithiol o reoli perygl llifogydd
10. Canfod prosiectau a rhaglenni sy'n fforddiadwy ac yn gwneud y mwyaf o gyllid cyfalaf gan ffynonellau mewnol ac allanol.


[1] Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd Conwy | Chwefror 2013

# 3 Perygl llifogydd yng Nghonwy

## 3.1 Llifogydd yn y gorffennol

Mae Ffigur 3-1 yn dangos set ddata CNC ynglŷn ag ehangder llifogydd a gofnodwyd. Afonydd a dŵr wyneb a achosodd y rhan helaeth o lifogydd a gofnodwyd. Nodir llifogydd arwyddocaol sydd wedi digwydd yng Nghonwy yn yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 1 (2023).

Mae'n bwysig nodi nad yw diffyg cofnodion hanesyddol o lifogydd yn golygu o reidrwydd nad oes llifogydd erioed wedi digwydd yn yr ardal. Ar gyfer safleoedd heb eu datblygu o'r blaen, mae'n debygol na chofnodwyd unrhyw lifogydd yn y gorffennol gan nad oedd neb yn defnyddio'r safle neu neb â diddordeb ynddo. Mae'n bosib hefyd y gallai prosesau llifogydd fod wedi newid ers dyddiad llifogydd a gofnodwyd, a'i bod felly'n fwy neu'n llai tebygol y bydd llifogydd yn digwydd ar y safle.





Ffigur 3-1 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Llifogydd Hanesyddol

## 3.2 Llifogydd o afonydd

Ceir peryglon llifogydd o afonydd ledled Conwy, yn bennaf ar lannau'r prif afonydd a chyrsiau dŵr, sef Afon Conwy, Afon Elwy, Afon Aled, Merddwr ac Afon Ceirw. Mae Ffigur 3-2 yn rhoi gorolwg ar beryglon llifogydd o afonydd yng Nghonwy. Nid oes unrhyw

safleoedd wedi'u dyrannu yn y rhannau hynny o'r map y mae llifogydd o afonydd yn ymestyn iddynt.





Ffigur 3-2 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Afonydd

### 3.2.1 Effaith newid hinsawdd ar berygl llifogydd o afonydd

Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn cynyddu'r perygl o lifogydd o afonydd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynglŷn â newid hinsawdd ar gyfer Asesiadau Canlyniadau Llifogydd[2] yn pennu lwfansau newid hinsawdd ar gyfer ceisiadau cynllunio a chynlluniau datblygu. Yn unol â TAN 15, mae'r lwfansau hynny'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am ragestyniadau newid hinsawdd. Mae Tabl 3-1 a Tabl 3-2 yn eu tro'n dangos y cynnydd a ragwelir yn llif mwyaf yr afonydd yn Ardaloedd Basn Afon Gorllewin Cymru ac Afon Dyfrdwy, sef yr ardaloedd y mae Conwy'n rhan ohonynt. Mae Ffigur 3-3 yn dangos pa rannau o Gonwy sy'n perthyn i ba ardal basn afon.

Argymhellir defnyddio'r amcangyfrif canolig ar gyfer y 2080au wrth asesu effaith bosib newid hinsawdd wrth gynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd. Dylid defnyddio'r amcangyfrif mwyaf wrth gynllunio camau lliniaru er mwyn helpu i sicrhau y bydd y datblygiad yn gadarn yn hirdymor.

2 Asesiadau Canlyniadau Llifogydd: Lwfansau Newid Hinsawdd | Medi 2021




Ffigur 3-3 Ardaloedd Basn Afon

Tabl 3-1 Lwfans lefelau uchaf llif afon ar gyfer Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru


| Lwfans | Cyfanswm y newid posib a ragwelir erbyn y 2020au | Cyfanswm y newid posib a ragwelir erbyn y 2050au | Cyfanswm y newid posib a ragwelir erbyn y 2080au |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif mwyaf | 25% | 40% | 75% |
| Amcangyfrif canolig | 15% | 25% | 30% |
| Amcangyfrif lleiaf | 5% | 10% | 15% |

Tabl 3-2 Lwfans lefelau uchaf llif afon ar gyfer Ardal Basn Afon Dyfrdwy

| Lwfans | Cyfanswm y newid posib a ragwelir erbyn y 2020au | Cyfanswm y newid posib a ragwelir erbyn y 2050au | Cyfanswm y newid posib a ragwelir erbyn y 2080au |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif mwyaf | 20% | 30% | 45% |
| Amcangyfrif canolig | 10% | 15% | 20% |
| Amcangyfrif lleiaf | 5% | 5% | 5% |

## 3.3 Llifogydd o'r môr

Mae Ffigur 3-4 yn rhoi gorolwg ar beryglon llifogydd o'r môr yng Nghonwy. Ceir perygl o lifogydd o'r môr ar hyd arfordir gogledd Cymru a chyrsiau dŵr llanwol yn y sir. Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dyrannu yn y rhannau hynny o'r map y mae llifogydd o'r môr yn ymestyn iddynt.




Ffigur 3-4 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - y Môr

### 3.3.1 Effaith newid hinsawdd ar berygl llifogydd o'r môr

Diwygiwyd canllawiau Llywodraeth Cymru i adlewyrchu cynnydd yn nhymheredd cymedrig wyneb y ddaear yn fyd-eang. Mae Tabl 3-3 yn nodi'r amcangyfrifon o gynnydd cronnus yn lefel y môr yn sir Conwy hyd at 2100 a 2120 (er mwyn adlewyrchu oes o 100 mlynedd ar gyfer datblygiad preswyl). Cyfrifir y lwfansau ar sail set ddata UKCP18 2100.

Dylid o leiaf asesu cynigion datblygu ar sail y 70fed canradd; dylid hefyd, fodd bynnag, asesu ar sail y 95ed canradd er mwyn cynllunio camau lliniaru, llwybrau mynediad a ffyrdd allan a chynlluniau gwacáu ardaloedd mewn argyfwng.


Tabl 3-3 Amcangyfrif o'r cynnydd cymedrig yn lefel y môr yn ardal Awdurdod Lleol Conwy

| Canradd | Cynnydd cymedrig yn lefel y môr (metrau) erbyn 2100 | Cynnydd cymedrig yn lefel y môr (metrau) erbyn 2120 |
|---|---|---|
| 70fed | 0.75 | 0.89 |

| Canradd | Cynnydd cymedrig yn lefel y môr (metrau) erbyn 2100 | Cynnydd cymedrig yn lefel y môr (metrau) erbyn 2120 |
|---|---|---|
| 95ed | 1.01 | 1.21 |

## 3.4 Llifogydd dŵr wyneb

Mae Ffigur 3-5 yn dangos Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach, sy'n dangos maint posib y llifogydd yn sgil glaw o'r fath a welir unwaith mewn 100 mlynedd (Parth Llifogydd 3) a 1,000 o flynyddoedd (Parth Llifogydd 2). Mae'r risg wedi'i gwasgaru ledled Conwy, yn enwedig ar hyd cyrsiau dŵr cyffredin ac ardaloedd is lle mae dŵr wyneb yn cronni mewn pantiau. Mae'r mapiau'n seiliedig ar dybiaethau cyffredinol ynglŷn â pherfformiad y systemau draenio lleol.




Ffigur 3-5 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Dŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach

### 3.4.1 Effaith newid hinsawdd ar berygl llifogydd o ddŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach

Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn arwain at aeafau gwlypach a stormydd cryfach yn yr haf. Bydd mwy o law'n effeithio ar systemau draenio tir ac ardaloedd trefol ac yn achosi llifogydd dŵr wyneb, oherwydd cynnydd yng nghyfaint y dŵr sy'n dod drwy'r systemau hynny.

Mae Tabl 3-4, sy'n ddetholiad o ganllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch newid hinsawdd, yn dangos y newidiadau a ragwelir yn anterth y glaw mewn dalgylchoedd bach (llai na 5 cilometr sgwâr). Dylid asesu'r amcangyfrifon mwyaf a chanolig er mwyn deall hyd a lled yr effaith, a dylid asesu cynigion datblygu ar sail yr amcangyfrif canolig o leiaf wrth reoli lefelau dylunio. Os yw'r asesiad yn dynodi fod perygl llifogydd arwyddocaol yn deillio o'r amcangyfrif mwyaf, bydd angen i'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd ddynodi camau lliniaru sydd eu hangen i ddiogelu pobl ac eiddo.

Ar gyfer dalgylchoedd afonydd mwy na 5 cilometr sgwâr, dylid defnyddio'r cyfraddau llif uchaf yn Adran 3.2.1.

Tabl 3-4 Dwysedd brig y glaw (ar gyfer dalgylchoedd bach yn unig)

| Lwfans | Cyfanswm y newid posib a ragwelir ar gyfer y 2020au (2015-2039) | Cyfanswm y newid posib a ragwelir ar gyfer y 2050au (2040-2069) | Cyfanswm y newid posib a ragwelir ar gyfer y 2080au (2070-2115) |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif mwyaf | 10% | 20% | 40% |
| Amcangyfrif canolig | 5% | 10% | 20% |

## 3.5 Llifogydd dŵr daear

Yn ardaloedd arfordirol Conwy y mae'r perygl mwyaf o lifogydd dŵr daear ac ardaloedd ar lannau Afon Dulas, Afon Cledwen ac Afon Conwy, sy'n llifo drwy ganol yr ardal weinyddol. Mae ardaloedd yn Llanrwst ac Abergele hefyd mewn cryn berygl o lifogydd dŵr daear.

Mae JBA wedi datblygu amryw ategion i'r Map Llifogydd Dŵr Daear ar raddfa genedlaethol. Defnyddiwyd map Dŵr Daear JBA â chydraniad 5 metr yn yr Asesiad Strategol hwn ac fe'i gwelir yn Ffigur 3-6.  Mae'r modelu'n cynnwys efelychu lefelau dŵr daear ar gyfer ystod o gyfnodau dychwelyd (gan gynnwys 75, 100 a 200 mlynedd). Wedyn, caiff lefelau dŵr daear eu cymharu â lefelau wyneb y tir i ganfod y gwahaniaeth mewn metrau. Mae Map Dŵr Daear JBA yn categoreiddio'r gwahaniaeth (metrau) mewn pum dosbarth yn seiliedig ar allbynnau model 100 mlynedd. Nodir y rhain yn Tabl 3-5.


Dylid cadw mewn cof fod Map Llifogydd Dŵr Daear JBA yn seiliedig ar fodelu cenedlaethol ac na ddylid ei ddefnyddio ond ar gyfer asesiadau bras o'r perygl llifogydd dŵr daear mewn unrhyw ardal, gan nad ydyw wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer asesu'r perygl llifogydd ar raddfa eiddo unigol, ac felly argymhellir y dylid cynnal asesiadau canlyniadau llifogydd dŵr daear ar gyfer safleoedd penodol mewn ardaloedd risg uchel i gael dealltwriaeth gyflawn o'r tebygolrwydd o lifogydd.

Dim ond dau o'r safleoedd a ddyrannwyd sy'n gorwedd mewn ardaloedd sydd o bosib mewn perygl o gael llifogydd dŵr arwyneb:

- Swyddfeydd Addysg, Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos (Cyfeirnod Safle 132)
- Tir i'r de o Aber Road (Safle 2), Llanfairfechan (Cyfeirnod Safle 157).

Tabl 3-5 Categorïau map perygl llifogydd dŵr daear JBA

| Dyfnder y dŵr mewn llifogydd â Thebygolrwydd Gormodiant Blynyddol o 1% | Perygl llifogydd dŵr daear |
|---|---|
| Mae lefelau dŵr daear cyn uched ag wyneb y tir neu'n agos iawn at hynny (0.025 metr neu lai). | Yn y parth hwn ceir perygl o lifogydd dŵr daear yn effeithio ar asedau ar wyneb y tir a than ddaear. Gall ddŵr daear godi ar gyfraddau sylweddol a llifo dros y tir a/neu gronni mewn unrhyw bantiau. |
| Mae lefelau dŵr daear rhwng 0.025 metr a 0.5 metr islaw wyneb y tir. | Yn y parth hwn ceir perygl o lifogydd dŵr daear yn effeithio ar asedau ar wyneb y tir a than ddaear. Mae posibilrwydd o ddŵr daear yn codi i'r wyneb yn lleol. |
| Mae lefelau dŵr daear rhwng 0.5 metr a 5 metr islaw wyneb y tir. | Ceir perygl o lifogydd yn effeithio ar asedau dan ddaear ond mae'n annhebygol y daw dŵr daear i'r wyneb. |
| Mae lefelau dŵr daear o leiaf 5 metr islaw wyneb y tir. | Nid yw llifogydd o ddŵr daear yn debygol. |
| Dim perygl. | Bernir nad oes fawr ddim perygl o lifogydd dŵr daear yn y parth hwn oherwydd natur y nodweddion daearegol lleol. |




Ffigur 3-6 Perygl llifogydd o ddŵr daear

### 3.5.1 Effaith newid hinsawdd ar lifogydd dŵr daear

Nid oes cymaint o sicrwydd ynglŷn ag effaith newid hinsawdd ar lifogydd dŵr daear sy'n gysylltiedig â dalgylchoedd afonydd a chyrsiau dŵr y mae dŵr daear yn dylanwadu'n fawr ar eu gorlif yn y gaeaf. Byddai newidiadau yn amledd a dwysedd y llifogydd dŵr daear oherwydd newid hinsawdd yn dibynnu ar y prosesau gorlifo a nodweddion daearegol.


Gallai gaeafau cynhesach a gwlypach olygu bod llifogydd dŵr daear yn digwydd yn amlach mewn ardaloedd sydd eisoes yn dueddol o'u cael, ond gallai hafau poethach a sychach wrthbwyso hynny drwy ostwng lefelau dŵr daear yn fwy yn ystod misoedd yr haf.

Yng ngorlifdir yr arfordir, mae'n bosib y gallai cynnydd yn lefel cymedrig y môr effeithio ar y dylanwad y mae dŵr daear yn ei gael ac effeithio ar allu systemau draenio a chyrsiau dŵr i ddraenio dŵr. Mewn sefyllfaoedd lle gallai effeithiau felly ddod yn fwy perthnasol dros oes y datblygiad, dylid cynnal asesiad manylach er mwyn canfod unrhyw bethau a fedrai effeithio ar y datblygiad arfaethedig a mynd i'r afael â'r effeithiau hynny.

## 3.6 Llifogydd o gronfeydd dŵr

Defnyddiwyd set ddata'r Map Llifogydd ar gyfer cynllunio - Risg llifogydd o gronfeydd dŵr i ganfod y risg o gronfa ddŵr yn gorlifo, fel y gwelir yn Ffigur 3-7. Gallai methiant cronfa ddŵr greu difrod trychinebus wrth i gyfaint mawr o ddŵr ollwng yn sydyn. Er hynny, mae hanes o

ddiogelwch rhagorol mewn cronfeydd dŵr yn y Deyrnas Unedig a CNC yw'r awdurdod sy'n gorfodi Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob cronfa ddŵr fawr fod yn destun archwiliadau rheolaidd a bod peirianwyr panel cymwys yn goruchwylio unrhyw waith diogelwch hanfodol a wneir. Bach iawn yw'r perygl o'r cronfeydd dŵr hyn, felly. Nid oes unrhyw safleoedd wedi'u dyrannu ar y rhannau hynny o'r map a fyddai mewn perygl pe byddai cronfa ddŵr yn gorlifo.




Ffigur 3-7 Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio - Perygl Llifogydd o Gronfeydd Dŵr

## 3.7 Llifogydd o garthffosydd

Mae carthffosydd yn gorlifo pan mae hi'n glawio cymaint fel na fedr y rhwydweithiau ymdopi â'r holl ddŵr, neu pan mae isadeiledd yn methu. Mae hynny'n cynnwys carthffosydd cyfun a charthffosydd dŵr wyneb, gorsafoedd pwmpio a chyfleusterau trin dŵr. Fel arfer, cyfyngir effaith carthffos yn gorlifo i ardaloedd cymharol fach. Gall llifogydd sy'n deillio o rwystr yn y rhwydwaith carthffosydd neu fethiant ynddo, fodd bynnag, ddigwydd yn ddisymwth ac yn ddirybudd. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am isadeiledd carthffosydd yn ardal yr astudiaeth ac am gofnodi achosion o lifogydd o garthffosydd.

### 3.7.1 Effaith newid hinsawdd ar lifogydd o garthffosydd

Mae newid hinsawdd yn debygol o arwain at fwy o lifogydd o garthffosydd oherwydd y gydberthynas â ffynonellau llifogydd eraill. Os yw llifogydd o garthffosydd yn broblem

hysbys, dylid ystyried hyn ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio. Dylid ymgynghori â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a Dŵr Cymru i geisio cyngor penodol ynglŷn ag unrhyw hanes hysbys o garthffosydd yn gorlifo ac unrhyw gamau adferol sydd eu hangen.

### 3.8 Risg weddilliol

Nid yw amddiffynfeydd cadarn rhag llifogydd yn golygu y dylid caniatáu datblygiad heb ystyried y perygl llifogydd ymhellach. Mae amddiffynfeydd yn lleihau'r perygl o lifogydd ond nid ydynt yn ei ddileu'n llwyr. Gall canlyniadau llifogydd fod yn arbennig o ddifrifol os yw dŵr yn torri drwy amddiffynfeydd neu'n dod drostynt, gan ei fod wedyn yn lledu'n gyflym a chreu peryglon. Yn ogystal â hynny, gall pethau fynd yn sownd mewn strwythurau hydrolig fel pontydd a cheuffosydd a gall pympiau, llifddorau a llabedi fethu â gweithio'n iawn.

Lle bo'n briodol, dylid cynnal Asesiad Canlyniadau Llifogydd er mwyn dangos y gellid rheoli canlyniadau llifogydd yn dderbyniol pe byddai dŵr yn torri drwy amddiffynfeydd neu'n dod drostynt, neu pe byddai rhyw fath o rwystr. Bydd angen hyn ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd sydd â'r math o amddiffynfeydd y gallai dŵr dorri drwyddynt neu ddod drostynt a nodweddion y gellid eu rhwystro, gan gynnwys argloddiau llifogydd, waliau môr a cheuffosydd. Dylid ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn gynnar i drafod y gofynion ar gyfer asesu'r risgiau gweddilliol, rhagdybiaethau technegol a bodloni'r meini prawf er derbynioldeb.

# 4 Arfarnu safleoedd yng Ngham 2

## 4.1 Arfarnu safleoedd

Wrth neilltuo tir i'w ddatblygu, dylid ystyried yr effaith gronnus bosib o golli gorlifdir ac effaith bosib y cynnydd mewn dŵr wyneb o'r datblygiad arfaethedig. Er efallai nad yw colli gorlifdir na'r cynnydd mewn llif dŵr sy'n deillio o ddatblygiadau unigol yn cael fawr ddim o effaith ar berygl llifogydd, gallai'r effaith gronnus o nifer o ddatblygiadau fod yn ddifrifol.

Darparodd CBSC y dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ardal yr astudiaeth. Cyflwynir adroddiadau cryno ynghylch y 12 o safleoedd a ddyrannwyd yn Atodiad A, gan gynnwys argymhellion ar gyfer arfarnu ymhellach a rheoli'r perygl llifogydd ar bob un o'r safleoedd hynny.

Beth bynnag yw'r argymhellion yn yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 2, bydd angen cynnal Asesiadau Canlyniadau Llifogydd ar gyfer safleoedd penodol yn unol â'r polisïau a chanllawiau diweddaraf ac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch perygl llifogydd ac amddiffynfeydd, a hynny ar gyfer cynnwys yr Asesiad Strategol hefyd.

# 5 Crynodeb

Mae'r Asesiad Strategol Cam 2 hwn yn rhoi canllawiau ac argymhellion ar gyfer 12 o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ardal awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Asesiad Strategol Cam 1, sy'n asesu'r holl ffynonellau llifogydd yn yr ardal weinyddol.

Dylid ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ogystal â'r rhai hynny a wneir yn Adran 9.2 o'r Asesiad Strategol Cam 1.

Mae'n bwysig nodi y lluniwyd yr Asesiad Strategol hwn ar sail y wybodaeth orau oedd ar gael ar adeg ei ysgrifennu. Mae a wnelo hynny â'r risg bresennol o lifogydd o bob ffynhonnell yn ogystal ag effeithiau posib yn y dyfodol yn sgil newid hinsawdd.

Dylid gweld yr Asesiad Strategol fel dogfen fyw ac felly dylid ei ddiwygio â'r wybodaeth ddiweddaraf am berygl llifogydd, rhybuddion llifogydd neu unrhyw ganllawiau cynllunio neu ddeddfwriaeth newydd a gyflwynir. Dylid ceisio cyngor hefyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru er mwyn sicrhau fod unrhyw asesiadau newydd yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf. Gallai'r wybodaeth honno gynnwys:

- Diwygio polisïau a deddfwriaeth
- Gwybodaeth am achosion o lifogydd
- Canlyniadau modelu hydrolig newydd
- Diwygio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio
- Cynlluniau newydd i amddiffyn rhag llifogydd neu liniaru arnynt.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu ei fapiau perygl llifogydd yn gyson ac mae'n bwysig cysylltu â CNC i holi a oes gwybodaeth newydd ar gael cyn cychwyn Asesiad Canlyniadau Llifogydd.

JBA consulting

## Rhestr o swyddfeydd:

Bryste
Coleshill
Doncaster
Dulyn
Caeredin
Caerwysg
Glasgow
Haywards Heath
Ynys Manaw
Leeds
Limerick
Newcastle upon Tyne
Casnewydd
Peterborough
Portsmouth
Saltaire
Skipton
Tadcaster
Thirsk
Wallingford
Warrington

Swyddfa Gofrestredig
1 Broughton Park
Old Lane North
Broughton
SKIPTON
Gogledd Swydd Efrog
BD23 3FD
Y Deyrnas Unedig /
United Kingdom

+44(0)1756 799919
info@jbaconsulting.com
www.jbaconsulting.com
Dilynwch ni:

Jeremy Benn
Associates Limited
Cofrestrwyd yn Lloegr
3246693

Ardystiwyd bod JBA
Group Ltd yn bodloni'r
safonau:
ISO 9001:2015
ISO 14001:2015
ISO 27001:2013
ISO 45001:2018

